

**Rhwydwaith Iechyd
Cyhoeddus Cymru**
**Public Health
Network Cymru**



**Gwaith teg ar gyfer iechyd, lles
a thegwch**

Gorffennaf 2022

Croeso

Croeso i rhifyn mis Gorffennaf o'r e-fwletin.

Mae natur gwaith yn effeithio arnom ni i gyd, a gall naill ai fod yn rhan o'r ateb i Gymru iachach, fwy cyfartal, neu gall gyfrannu at straen seicolegol, salwch a marwolaeth gynnar. Yn ein gweminar ddiweddar, clywsom gan banel arbenigol oedd yn trafod yr hyn y gall asiantaethau lleol a rhanbarthol ei wneud i ddylanwadu ar waith teg i gefnogi iechyd, tegwch, busnes da a'r economi ehangach.

Mae'r e-fwletin yma'n parhau â'r thema Gwaith Teg ac yn cynnwys gwybodaeth am fentrau gyda'r nod o gynyddu cyfranogiad mewn gwaith teg.

Byddem wrth ein bodd yn clywed am unrhyw wybodaeth ychwanegol, astudiaethau achos neu awgrymiadau i'w rhannu gyda'r gymuned iechyd y cyhoedd ehangach yng Nghymru mewn e-fwletinau yn y dyfodol ac ar ein gwefan felly cysylltwch â ni yn Publichealth.network@wales.nhs.uk neu gallwch ddod o hyd i ni ar [@PHNetworkCymru](https://twitter.com/PHNetworkCymru)

Cysylltu â Ni

Gallwch gysylltu â Rhwydwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru mewn amrywiaeth o ffyrdd

Drwy anfon e-bost: publichealth.network@wales.nhs.uk

Drwy'r post
Rhwydwaith Iechyd Cyhoeddus
Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Llawr 5,
Rhif 2 Capital Quarter,
Tyndall Stryd, Caerdydd, CF10
4BZ

Drwy ein sianeli cyfryngau cymdeithasol
Twitter: [@PHNetworkCymru](https://twitter.com/PHNetworkCymru)



Cynnwys

Penawdau

4

Podlediad

10

Fideos

11

Ar y grawnwin

12

Newyddion

13

Pynciau

14

Rhifyn Nesaf

15

Penawdau

Gwaith teg ar gyfer iechyd, llesiant a thegwch

Awdur:

Christian Heathcote-Elliott, Prif Ymarferwr Iechyd Cyhoeddus, Uned Penderfynyddion Ehangach Iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru

Mae gwaith yn gonglfaen allweddol ar gyfer iechyd a llesiant. Yn ei dro mae iechyd da yn cefnogi gwaith a'r economi. Ond nid dim ond unrhyw fath o waith sy'n bwysig i iechyd a llesiant – mae'n ymwneud â gwaith teg. Gwaith teg yw ble mae “gweithwyr yn cael eu gwobrwyo, yn cael eu clywed ac yn cael eu cynrychioli'n deg, bod ganddynt sicrwydd a'u bod yn gallu dod yn eu blaen mewn amgylchedd iach a chynhwysol, lle mae hawliau'n cael eu parchu” ([Gwaith Teg Cymru, 2019, t2](#)).

Mae gan sefydliadau o bob maint rôl bwysig i'w chwarae o ran cynyddu cyfranogiad mewn gwaith teg ar gyfer Cymru fwy cyfartal, ffyniannus, cynaliadwy a gwyrdd.

Mae'r Uned Penderfynyddion Ehangach Iechyd gyda chymorth Panel Arbenigol wedi cynhyrchu [ffeithlunia, astudiaethau achos, canllaw ac animeiddiad](#) (Mai 22) ar gyfer asiantaethau lleol a rhanbarthol i'w helpu i ddeall y camau y gallant eu cymryd i gynyddu cyfranogiad mewn gwaith teg.

Cymru Iach ar Waith: Cefnogi Sefydliadau ar Draws Cymru i ddod yn Gyflogwyr Gwaith Teg

Awdur:

Rachel Lewis, Prif Ymarferydd Iechyd y Cyhoedd, Iechyd Cyhoeddus Cymru



Gall gwaith teg gael effaith gadarnhaol ar iechyd, a chydabyddir yn eang bod gan gyflogwyr rôl i'w chwarae yn gwella iechyd eu cyflogeion. Mae Adolygiad Marmot ar gyfer Diwydiant (1) yn galw ar sefydliadau i hybu iechyd cyflogeion trwy dâl a buddion, diogelu oriau a swyddi, ac amodau gwaith. Yng Nghymru, mae'r cyswllt rhwng gwaith teg ac iechyd wedi ei sefydlu ar draws Cynllun Cyflogadwyedd a Sgiliau Llywodraeth Cymru (2).

Mae Cymru Iach ar Waith, rhaglen a ariennir gan Lywodraeth Cymru a'i chynnal gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, yn gweithio'n agos gyda phartneriaid i gefnogi cyflogwyr mewn tri maes: i greu amgylcheddau gwaith iach, hybu ymddygiad iach a rhoi cymorth ychwanegol i gyflogeion ag anghenion iechyd.

Mae Cymru Iach ar Waith yn datblygu model cyflwyno newydd, lle bydd cyflogwyr yn gallu dewis pa faes a thestun y maent eisiau dechrau gydag ef ar eu taith i fod yn gyflogwr Cymru Iach ar Waith. Mae dod yn gyflogwr gwaith teg yn allweddol i sicrhau amgylchedd gwaith iach a mynd i'r afael â phenderfynyddion ehangach iechyd.

Mae'r tîm yn gweithio i ddatblygu amrywiaeth o wybodaeth testun ac adnoddau gwaith teg ar dudalennau gwe Cymru Iach ar Waith, fel: Datblygiad Cyflogeion; Cyfathrebu ac Ymgysylltu â Chyflogeion; Lleoedd a Ffyrdd Hyblyg o Weithio; ac Iechyd a Diogelwch. Fel rhan o'r model cyflwyno newydd, bydd pob un o'r testunau hyn yn cael eu hymgorffori i fodiwl gwaith teg gan alluogi cyflogwyr i gael eu hasesu fel cyflogwr gwaith teg fel rhan o wobrau Cymru Iach ar Waith. (3)

Mae llawer o gyflogwyr presennol Cymru Iach ar Waith eisoes yn cyflwyno elfennau o waith teg yn eu gweithleoedd. Er enghraifft, dangosodd [adroddiad](#) a gyhoeddwyd gan Gymru Iach ar Waith, yn ystod Pandemig COVID-19, fod llawer o'n cyflogwyr wedi gwneud darpariaeth i gyflogwyr weithio gartref a datblygu cymorth ar-lein wedi ei deilwra i fodloni anghenion staff sydd yn gweithio o bell. Fe wnaeth rhai ohonynt greu cyfleoedd swyddi ar gyfer cyflogwyr busnesau llai yn eu cymuned leol oedd wedi rhoi'r gorau i fasnachu dros dro neu'n barhaol oherwydd y pandemig. Creuodd cyflogwyr mwy gontractau gwaith, hyfforddiant, a chyfleoedd am brofiad gwaith dros dro i gynorthwyo'r boblogaeth leol i ddatblygu sgiliau cyflogadwyedd ymhellach. Yn ogystal, ar draws y sectorau, ymlaciodd llawer o gyflogwyr eu horiau craidd arferol, gyda rhai cyflogwyr yn cynnig amser i ffwrdd o'r gwaith, ar gyflog llawn, i gyflogeion oedd yn gorfod ymdrin â sefyllfaoedd a achoswyd gan COVID.

Dylid ystyried dod yn gyflogwr gwaith teg fel taith barhaus o wella ansawdd, yn hytrach nag ymarfer ticio bocsys. Y cam pwysicaf yw i sefydliadau ddeall y rôl sydd ganddynt yn gwella iechyd eu cyflogeion, a'r cyfraniad y gallant ei wneud i leihau anghydraddoldebau iechyd. Mae llawer o gyflogwyr Cymru Iach ar Waith eisoes yn cyflwyno elfennau o waith teg fel rhan o'u harferion cyflogaeth presennol. Gall tîm Cymru Iach ar Waith roi cyngor, arweiniad a chymorth i gyflogwyr o bob maint ar draws Cymru i'w galluogi i ystyried eu harferion cyflogaeth yn erbyn y nodweddiion gwaith teg ac ystyried y camau cyntaf y gallant eu cymryd i fod yn sefydliad gwaith teg. Am wybodaeth ychwanegol, ewch i wefan Cymru Iach ar Waith neu cysylltwch â'r tîm yn workplacehealth@wales.nhs.uk.

1 Marmot M, Alexander M, Allen J, Munro A (2022), The Business of Health Equity: The Marmot Review for Industry: Institute of Health Equity.[read-report.pdf \(instituteofhealthequity.org\)](#) cyrchwyd ar 18.07.2022

2 [Cymru gryfach, decach a gwyrddach: cynllun cyflogadwyedd a sgiliau | LLYW. CYMRU](#) cyrchwyd ar 18.07.2022

3 <https://phw.nhs.wales/services-and-teams/healthy-working-wales/reports/how-employers-in-wales-responded-to-the-covid-19-pandemic/>

Y diweddaraf ar y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus

Awdur: Llywodraeth Cymru

Ddydd Mawrth 7 Mehefin, gosodwyd y Bil Partneriaethau Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus gerbron y Senedd gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r daith ddeddfwriaethol yn cynnwys pedwar cam ac os caiff ei phasio, mae'r Bil yn debygol o ddod yn gyfraith yn 2023. Mae testun y Bil, Nodiadau Esboniadol (trosolwg defnyddiol ynghyd â sylwebaeth cymal wrth gymal) a [dogfennau cysylltiedig eraill ar gael yma](#).

Mae'r Bil yn cyflawni ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i roi partneriaeth gymdeithasol ar sail statudol yng Nghymru. Mae'n darparu ar gyfer fframwaith i wella lles pobl Cymru, gan gynnwys drwy wella gwasanaethau cyhoeddus, drwy weithio mewn partneriaeth gymdeithasol, hyrwyddo gwaith teg a chaffael cyhoeddus sy'n gyfrifol yn gymdeithasol.

Bwriedir i'r Bil ategu deddfwriaeth arall, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn adran 1 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae sawl maes lle mae'r Bil yn rhyngweithio â Bil Caffael Llywodraeth y DU megis terminoleg a diffiniadau, yn y cyrff a gwmpesir gan y Biliau, ac wrth sefydlu mecanweithiau ar gyfer goruchwyllo ac atebolrwydd.

Dyma yw nodau trosfwaol y Bil:

Partneriaeth Gymdeithasol

Rhoi partneriaeth gymdeithasol ar sail statudol a gosod dyletswyddau newydd ar gyfrif cyhoeddus yng Nghymru i gynnwys undebau llafur cydnabyddedig, neu lle nad oes undeb llafur cydnabyddedig gyda chynrychiolwyr eraill o'u staff, wrth wneud eu gwaith.

Caffael sy'n Gyfrifol yn Gymdeithasol

Sicrhau bod gwariant cyhoeddus ar nwyddau, gwaith a gwasanaethau yn cael ei wneud mewn modd sydd o fudd i bawb (ac nad yw'n canolbwyntio ar gost yn unig).

Gwaith Teg

Mae gwaith teg yn cael ei gydnabod fel elfen allweddol o Gymru fwy cyfartal a ffyniannus o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Datblygiad Cynaliadwy

Rhoi partneriaethau cymdeithasol wrth wraidd datblygu cynaliadwy - gwneud pethau nawr mewn modd sy'n ystyried yr effaith ar bobl fydd yn byw eu bywydau yng Nghymru yn y dyfodol.

Mae'r ddyletswydd Caffael sy'n Gyfrifol yn Gymdeithasol yn ymwneud â phennu amcanion sefydliadol sy'n cyfrannu at les cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol, mwy o dryloywder ac adrodd ar ganlyniadau, a gwella'r broses o reoli contractau ac atebolrwydd.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am unrhyw newidiadau a wneir i'r Bil wrth iddo fynd drwy'r Senedd.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y Bil, anfonwch e-bost aton ni yn socialpartnership@llyw.cymru.

Mae Sefydliad Bevan wedi eu rhannu ei ganfyddiadau ar fywyd gwaith mewn lletygarwch a manwerthu gyda Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig y Senedd

Awdur: Sefydliad Bevan

Roedd Sefydliad Bevan yn falch o fod yn un o gyfranwyr panel mewn sesiwn dystiolaeth a gynhaliwyd gan Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig. Mae'r Pwyllgor yn ymchwilio i'r materion y mae pobl sydd yn gweithio yn y sectorau lletygarwch, twristiaeth a manwerthu ar draws Cymru'n eu hwynebu.

Rhannodd Cyfarwyddwr Sefydliad Bevan, Victoria Winckler, ganfyddiadau allweddol o ymchwil 2021 ar [letygarwch](#) a [manwerthu](#). Roeddem hefyd yn gallu cyflwyno rhai o'r syniadau i wella amodau gweithwyr a nodwyd yn ein [hadroddiad terfynol](#).

Wrth roi tystiolaeth, gofynnwyd i Victoria nodi tri cham posibl y gallai Llywodraeth Cymru eu cymryd. Dywedodd i ddechrau y dylai fod yn ofynnol i gyflogwyr gydymffurfio â gofynion statudol yn ymwneud â'u cyflogeion, er enghraifft darparu slip tâl, talu'r isafswm cyflog a sicrhau bod gweithleoedd yn ddiogel. Dywedodd hefyd ei bod o'r farn bod addysgu gweithwyr – yn cynnwys gweithwyr yn y dyfodol – am eu hawliau cyflogaeth sylfaenol, yn bwysig, cyhyd â bod hynny'n cyd-fynd a chyflogeion yn cael llais. Yn olaf, dywedodd ei bod yn ffafrio ymagwedd o 'gydfuddsoddi', lle byddai gwelliannau i delerau ac amodau gweithwyr yn cael eu cyflwyno ynghyd ag ymdrechion i dyfu a chefnogi busnesau:

“Hoffwn weld, yn y dyfodol, bod yr ymgais i gefnogi neu stiwardio'r sectorau hynny, yn seiliedig ar fesurau i ymdrin â thelerau ac amodau gwael ynddynt.”

Mae trawsgrifiad o gyfarfod y Pwyllgor ar 3 Mawrth ar gael [yma](#).

Gwneud Cymru'n Wlad Gwaith Teg

Awdur: TUC Cymru

Rydym yn ymgyrchu i wneud Cymru'n Wlad Gwaith Teg – lle mae gweithwyr yn cael mwy o chwarae teg. Mae cyflogau isel, contractau dim oriau ac anghydraddoldeb yn fwrn ar economi Cymru.

Os ychwanegwn effaith bosib Brexit, awtomeiddio a Chredyd Cynhwysol at hyn, mae'n gyfuniad andwyol iawn. Rhaid gwneud rhywbeth ar fyrder – i wneud gwaith yn decach.

Bydd creu Gwlad Gwaith Teg yn:

- Mynd i'r afael â chyflogau isel ym marchnad lafur Cymru
- Cael gwared ar arferion cyflogaeth anghyfreithlon ac anniogel ac ecsbloetio gweithwyr
- Sefydlu dull undebol o ddysgu gydol oes
- Mynd i'r afael â'r cyfyngu ar weithgareddau undebau llafur gan gyflogwyr sy'n derbyn arian cyhoeddus

Gan weithio ymhellach gyda'r tîm arloesi yn CTMUHB, mae'r potensial ar gyfer ailgylchu ac ailddefnyddio cynnyrch podiatreg ac anadlol amrywiol yn cael ei archwilio. Mae'r ysgoloriaeth ymchwil PhD yma hefyd yn cydweithredu gyda phrosiectau a ariennir gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, Beacon a Ser Cymru BioPol4Life. Mae'r prosiectau hyn yn cyfrannu at bennu nodweddion polymerau, dadansoddi cylch bywyd ac astudiaethau sterileiddio ar gyfer opsiynau amrywiol ailddefnyddio ac ailgylchu polymerau. Mae prosiect a ariennir gan Hack Iechyd Cymru newydd gael ei lansio o ganlyniad i'r prosiectau hyn gyda'r nod o werthuso ailddefnyddio, ailgylchu ac ailddylunio esgidiau orthopedig.

Nod y rhain yw cyflwyno argymhellion yn ymwneud â gwastraff plastig meddygol yn seiliedig ar y deilliannau gwastraff yn ogystal â gwerthusiadau'n ymwneud ag opsiynau gwahanu ac ailgylchu gwastraff. Bydd y gwaith y cyflwyno cyfraniadau pwysig i gefnogi sector iechyd mwy cynaliadwy.

Sut y gallwn wneud Cymru'n lle tecach i weithio?

Y ffordd orau o wneud hyn yw drwy **Gydfargeinio** – lle mae gweithwyr a chyflogwyr yn negodi i sicrhau cyflog, telerau ac amodau teg.

Mae traean o holl weithwyr Cymru eisoes yn elwa o **Gydygtundeb** yn eu gweithle, ond rydym am ei weld yn dod yn arfer cyffredin ar draws Cymru.

Darllenwch [mwy](#)

Cynllun Kickstart – Arallgyfeirio a Chefnogi gweithlu'r dyfodol

Awdur: Nicky Punter, Rheolwr Adnoddau a Chynhwysiant y Gweithlu, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Mae cynllun kickstart yn agored i bobl rhwng 16-24 oed sydd ar hyn o bryd yn hawlio Credyd Cynhwysol ac â risg hirdymor o ddiweithdra. Mae'n cynnig swydd â thâl i unigolion am 6 mis gyda chyllid gan y llywodraeth ar gyfer 25 awr yr wythnos. Fe'i telir yn unol â'r isafswm cyflog cenedlaethol yn ôl oed. Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yw un o'r sefydliadau mwyaf llwyddiannus yn cefnogi'r cynllun hwn yng Nghymru.

KICKSTART

SCHEME

Rhoddodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro y cynllun ar waith ym mis Mawrth 2021, ac roedd ganddo gontract cychwynnol ar gyfer 50 o leoedd. Cynyddwyd hyn yn gyflym i 200 o leoliadau yn y 6 wythnos cyntaf oherwydd ymgymeriad y lleoliadau, yn ôl adrannau. Roedd yr adrannau oedd ar gael yn amrywio o swyddi anghlinigol wedi eu lleoli ym mhob arbenigedd yn darparu cymorth gweinyddol. Hyd yn hyn, mae'r UHB wedi llenwi 146 o leoliadau, gyda 12 o unigolion yn cael swyddi parhaol, a 2 brentisiaeth. Mae'r gost i'r UHB yn fach gan fod y llywodraeth yn ariannu'r swyddi, a thelir grant o £1500 ar gyfer pob unigolyn a dderbynnir. Mae rhaglen ddatblygu wedi cael ei dylunio yn crynhoi treftadaeth Cymru mewn diwrnod profiad. Darperir sesiynau addysgol hefyd mewn cydweithrediad â Choleg Caerdydd a'r Fro. Mae effaith y cynllun wedi arwain at effaith gadarnhaol ar gyflenwad gweithlu Caerdydd a'r Fro gan ymestyn ein huchelgais i arallgyfeirio'r gweithlu. Mae'r cynllun wedi bod yn llwyddiannus iawn ac wedi rhoi llawer o gyfleoedd i bobl ifanc ddod i mewn i'r system iechyd a gofal. Mae'r cynllun wedi galluogi unigolion i wneud cais am swyddi parhaol yn yr UHB a chael llwybr gyrfa.

Adborth gan gyfranogwr Kickstart

“Rwy'n ddiolchgar iawn am Gynllun Kickstart. Mae'r fenter hon a'r profiad wedi arwain at swydd amser llawn, barhaol Band 4, yn gwneud swydd rwyf yn ei mwynhau gyda thîm yr wyf yn teimlo'n rhan ohono. Rhoddodd y cynllun hwn gyfle i mi ddysgu a datblygu fy set o sgiliau ac agorodd y drws i gyflogaeth barhaol”

Astudiaethau Achos – Gwaith Teg ar gyfer iechyd, llesiant a thegwch

Awdur: Cerys Preece, Prif Ymarferydd Iechyd y Cyhoedd, Iechyd Cyhoeddus Cymru

Mae Uned Penderfynyddion Ehangach Iechyd wedi datblygu astudiaethau achos i dangos enghreifftiau o ymrwymïadau gwaith teg gan bartneriaid a sefydliadau sydd wedi cyflawni canlyniadau cadarnhaol yn uniongyrchol ac sydd wedi cynyddu cyfranogiad mewn gwaith teg neu fynediad ato. Gobeithio y bydd y rhai sy'n gweithio mewn asiantaethau rhanbarthol a lleol yn cael eu hysgogi i weithredu mewn perthynas â'r agenda hon ac i ymgorffori gwaith teg yn y broses gwneud penderfyniadau ac mewn cynlluniau.

Mae'r astudiaethau achos yn cynnwys engrheftiau o Gymru ac y DU

- Living Wage in Wales
- Engage to Change
- Chwarae Teg
- Digital Communities Wales
- Fair Work Scotland
- South of Scotland Enterprise
- Birmingham Hospitality to Health
- Greater Manchester Good Employment Charter

Podlediad

Gwranddo ar ein podlediad diweddaraf

Ysgolion Iach

Beth yw Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru a'r Cynllun Cyn-Ysgol Iach a Chynaliadwy? Beth yw Dull Ysgol Gyfan/Lleoliad Cyfan? Beth yw Ysgol neu Gyn-ysgol iach yn edyrch fel?

[Gwranddo](#)

Podlediadau Eraill

[Incwm Sylfaenol, Iechyd a Chymru](#)

[Gwranddo](#)

[Parc Rhanbarthol y Cymoedd](#)

[Gwranddo](#)

[Petrustr Brechlyn yng Nghymru cyn ac yn ystod COVID-19](#)

[Gwranddo](#)

[Gweld yr holl bodlediadau](#)

**Cyfrannu at ein
Podlediad**

Os oes gennych ddi-ddordeb yn recordio podlediad gyda ni, cysylltwch ar ebost: rhwydwaith.iechydcyhoeddus@wales.nhs.uk

Fideos

Gwyllo ein fideo diweddaraf



Pandemig COVID-19 yng Nghymru: Bod yn agored i niwed dro ar ôl tro

Mae'r weminar hon yn olrhain sut mae dealltwriaeth benodol o'r cysyniad wedi llywio'r ymateb i'r pandemig gan ofal iechyd, llywodraeth Cymru a llywodraeth leol, a sefydliadau cymunedol yng Nghymru gyda ffocws ar ardal Abertawe.

[Gwyllo](#)

Mwy o fideos



Gwaith teg ar gyfer iechyd, lles a thegwch – beth ddylem ni ei wneud?

Trafododd aelodau'r panel eu safbwyntiau ar ganfyddiadau eu gwaith ar Adroddiad Gwaith Teg ar gyfer Iechyd, Lles a Thegwch.

[Gwyllo](#)

[Gweld yr holl fideos](#)



Agweddau ac ymddygiad y cyhoedd yn ystod pandemig COVID-19, ymagwedd gwyyddor ymddygiad

[Gwyllo](#)

Ar y grawnwin

Iechyd Cyhoeddus Cymru yn lansio 'Adnoddau ar gyfer Iechyd Cynaliadwy'

Awdur:

[Iechyd Cyhoeddus Cymru](#)

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi lansio e-gatalog newydd, am ddim i helpu timau ac unigolion sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus, i leihau eu heffaith ar yr amgylchedd a newid hinsawdd, ac annog ymddygiad cynaliadwy yn eu bywyd gwaith a'u bywyd cartref.

Mae gan bob corff cyhoeddus yng Nghymru ddyletswydd i weithio tuag at ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sy'n cyd-fynd â Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig, ac mae'r adnodd newydd hwn yn egluro'n glir y cysylltiadau rhwng pob cyhoeddiad a'r nodau.

Meddai Rebecca Masters, Ymgynghorydd Iechyd Cyhoeddus 'Mae amrywiaeth eang o adnoddau ar gael i gefnogi gweithredu ar ddatblygu cynaliadwy a all fod yn anodd ei lywio. Mae'r e-gatalog hwn yn siop un stop wych o adnoddau a gobeithio y bydd yn ddefnyddiol i unigolion, timau a sefydliadau wrth gyflawni eu hymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy.'

Mae'r e-gatalog yn rhan o waith parhaus gan y Ganolfan Iechyd a Chynaliadwy yn Iechyd Cyhoeddus Cymru ac mae'n rhoi crynodeb ac esboniad byr o adnoddau sy'n cefnogi ac yn annog unigolion, timau a sefydliadau i gymryd camau gweithredu i wella ffyrdd o fyw a gweithio a gofalu am iechyd a llesiant pobl a'r blaned. Y nod yw rhoi crynodeb defnyddiol, cyflym fel y gall pobl benderfynu beth y maent am ei ddarllen er diddordeb a'u cefnogi i gymryd camau ymarferol.

Mae rhai o'r adnoddau a nodwyd wedi'u hanelu at lefel unigol neu dîm, rhai ar lefel polisi sefydliad, cenedlaethol, neu ryngwladol. Ceir dolenni defnyddiol i wybodaeth, sefydliadau ac adnoddau eraill.

Gellir lawrlwytho'r catalog am ddim o:

<https://phwwhocc.co.uk/resources/adnoddau-ar-gyfer-iechyd-cynaliadwy/?lang=cy>

Newyddion

21-07-2022

Diogelu carcharorion rhag canser: adroddiad newydd gan WHO yn esbonio sut i frwydro yn erbyn annhegwch

[Darllen](#)

20-07-2022

Cynllun Gweithredu Atal Gordewdra Gofal Sylfaenol i gefnogi'r gwaith o weithredu Llwybr Rheoli Pwysau Cymru Gyfan

[Darllen](#)

14-07-2022

Brech y Mwnciod – gwybodaeth bellach

[Darllen](#)

14-07-2022

Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol yn cyhoeddi cefnogaeth ar gyfer partneriaethau bwyd ar draws Cymru

[Darllen](#)

13-07-2022

Mae llai o ddynion, pobl iau a'r rhai sy'n byw yn y cymunedau mwy difreintiedig yng Nghymru yn manteisio ar wasanaethau sgrinio sy'n achub bywydau

[Darllen](#)

[See all news](#)

Pynciau

[See all topics](#)

- A** Accidents and injury prevention
Adverse Childhood Experiences
Air Quality
Alcohol and substance use and misuse
Approaches and methods in public health practice
Arts and health
- B** Behaviour change
Biodiversity and greenspace
Built environment
Cancers
Cardiovascular conditions
Carers
Children and young people
Climate change
Communicable diseases
Community
Community assets
COVID-19
- D** Debt and benefits
Diabetes
Diet and nutrition

Early Years
Education and training
Employment
Environment
Ethnicity
Evaluation
- F** Foodborne communicable diseases
Fuel Poverty
Further, higher and tertiary education
- G** Good, fair work
- H** Health in all policies
Health inequalities
Health related behaviours
Homelessness
Housing
Housing quality
Human rights and social justice
- I** Income and resources
Influenza
- L** Learning difficulties
LGBTQ+
- M** Maternal and new born health
Men
Mental health conditions
Mental ill-health
Mental wellbeing
- N** Natural environment
Non-communicable diseases
- O** Offenders
Older adults
Oral health
- P** People
Physical activity
Planning
Poverty
Precarious work
Preschool (including WNHPSS)
Prevention in healthcare
- R** Respiratory conditions
- S** School (Including WNHPSS)
Sexual health
Sexually Transmitted Infections
Smoking and vaping
Social capital
Spirituality
Stress, coping and resilience
Suicide and suicide prevention
Sustainable development
Systems thinking in public health
- T** Transport
- U** Unemployment
- W** Water and sanitation
Wellbeing of Future Generations
Wider determinants of health
Women
Working age adults

Rhifyn Nesaf

Anghydraddoldebau Iechyd

Mae anghydraddoldebau iechyd yn deillio o amrywiaeth o ffactorau rhyng-gysylltiedig yn cynnwys mynediad at wasanaethau gofal iechyd, ymddygiad yn ymwneud ag iechyd, lles meddwl, cydlyniant cymdeithasol a phenderfynyddion ehangach iechyd fel ansawdd tai, mynediad at waith teg, tlodi ac ansawdd aer.

Ar gyfer ein e-fwletin nesaf, byddem yn croesawu erthyglau sydd yn edrych ar fentrau cenedaethol, rhanbarthol neu leol sydd yn canolbwyntio ar leihau anghydraddoldebau iechyd yng Nghymru. Gallai enghreifftiau gynnwys mynd i'r afael â'r argyfwng costau byw, addasu i newid hinsawdd, cynyddu mynediad at ofod gwyrdd a glas a hybu gweithgaredd corfforol.

